

Tasg 2

Ffrwydrol!

Yr Ail Ryfel Byd

Cwis dosbarth

Mewn grŵp, ysgrifennwch 8 cwestiwn ac ateb am yr Ail Ryfel Byd.

Ar ôl gorffen, bydd pob grŵp yn cael cyfle i ofyn eu cwestiynau ac i ateb y cwestiynau gan grwpiau eraill. Byddwch chi'n cael dau farc am bob ateb cywir.

Tybed pa grŵp fydd yn ennill?

Posterï'r Ail Ryfel Byd

Edrychwch eto ar y poster yn y cwestiynau a'r atebion.

Chwiliwch am 3 phoster gwahanol yn dyddio o'r Ail Ryfel Byd.

Lawrlwythwch nhw.

Eglurwch i'ch partner beth oedd pwrpas y posterï.

Dewiswch un o'r posterï a chwiliwch am wybodaeth sy'n gysylltiedig â'r poster, e.e.

- Beth yn union roedd y poster yn annog pobl i'w wneud neu i beidio â'i wneud?
- Pam roedd angen y poster?

Gwnewch daflen yn rhoi'r un neges â'r poster ond y tro yma, ychwanegwch fwy o wybodaeth a lluniau.

Naill ai:

Chwiliwch am wybodaeth am Anne Frank.

Gwnewch nodiadau wrth i chi chwilio.

Ysgrifennwch ddarn amdani.

Cofiwch gynnwys lluniau addas.

Neu:

Chwiliwch am wybodaeth am Winston Churchill.

Gwnewch nodiadau wrth i chi chwilio.

Ysgrifennwch ddarn amdano.

Cofiwch gynnwys lluniau addas.